Inspecting policing in the public interest

Adolygiad Cenedlaethol Ôl-arolygiad yr Arolygiad Amddiffyn Plant

Heddlu Dyfed-Powys
3-7 Awst 2015

January 2016

© HMIC 2016

ISBN: 978-1-78655-072-9

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmic

Cynnwys

1. Cefndir 3

2. Canfyddiadau'r adolygiad ôl-arolygiad 5

Cyswllt cychwynnol 5

Asesu a help 6

Ymchwilio 9

Gwneud penderfyniadau 11

Oedolyn priodol 12

Rheoli'r rhai hynny sy'n cyflwyno perygl i blant 13

Cadwad yr heddlu 14

3. Argymhellion 17

1. Cefndir

Fe wnaeth HMIC gynnal arolygiad amddiffyn plant yn Heddlu Dyfed-Powys ym mis Hydref 2014 gan ddarparu adroddiad ar ein canfyddiadau i'r llu ym mis Chwefror 2015. Ym mis Mawrth 2015, fe wnaeth y llu ddarparu cynllun gweithredu i HMIC yn cyflwyno sut roedd yn bwriadu ymateb i'r argymhellion yn adroddiad yr arolygiad. Fe wnaeth arolygwyr gynnal adolygiad ôl-arolygiad ym mis Awst 2015 er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed gan y llu o ran gweithredu'r argymhellion.

Roedd yr adolygiad yn cynnwys:

- adolygiad o ddogfennau;
- cyfweliadau â staff gan gynnwys y prif swyddog arweiniol, y pennaeth amddiffyn pobl hyglwyf a staff rheng flaen o dimau ymateb; ac
- archwiliadau o 27 achos o amddiffyn plant yn perthyn yn uniongyrchol i feysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad ac argymhellion cysylltiedig. Aseswyd perfformiad y llu wrth drafod yr achosion hyn fel da yn neg o'r achosion, angen gwella mewn deg arall ac yn annigonol mewn saith.

Crynodeb

Mae HMIC yn nodi bod Heddlu Dyfed-Powys yn ymrwymedig i wella'r broses o amddiffyn plant. Mae amddiffyn plant wedi'i flaenoriaethu ac mae awydd cryf i wella canlyniadau ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu niweidio. Roedd cynlluniau'r llu ac amlasiantaeth yn eu lle ac roedd y llu wedi cymryd rhai camau pwysig i weithredu rhai o'r argymhellion o'n harolygiad ym mis Hydref 2014. Ar adeg ein hymweliad ym mis Awst 2015, roedd rhai gwelliannau'n amlwg. Roedd y llu wedi adleoli staff ychwanegol i'w dimau amddiffyn plant a bwriadwyd gwelliannau i agweddau ar systemau TG y llu. Fe wnaethom ganfod bod y ddarpariaeth o hyfforddiant a chanllawiau wedi gwella'r broses o gofnodi agwedd ac ymddygiad plant mewn digwyddiadau cam-drin domestig. Roedd cadw plant yn y ddalfa o dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi lleihau ac roedd y llu wedi cymryd rhai camau i wella ei gamau gweithredu i fynd i'r afael â chyflawnwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant.

Fodd bynnag, roeddem yn bryderus i ganfod nad oedd y llu wedi gweithredu argymhellion eraill eto. Roedd yn dal i gadw plant yn ddiangen yn nalfa'r heddlu, ac nid oedd amseroldeb y ddarpariaeth archwilio meddygol arbenigol ar gyfer plant wedi gwella; nid oedd gan swyddogion rheng flaen fynediad i wybodaeth bwysig ynghylch plant bob tro, ac nid oedd y llu'n cofnodi barnau plant.

Mae HMIC yn nodi bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cymryd rhai camau i wella arferion ar gyfer amddiffyn plant, ond roedd ei gynnydd cyffredinol yn siomedig. Rydym yn ystyried bod llawer i'w wneud o hyd cyn gall y llu fod yn hyderus ei fod yn darparu gwasanaeth cyson dda i blant. Bydd arweinwyr y llu eisiau cyflymu cyflymder gwelliannau a monitro cynnydd am gryn dipyn o amser i ddod.

2. Canfyddiadau’r adolygiad ôl-arolygiad

Cyswllt cychwynnol

Argymhellion o adroddiad yr arolygiad cychwynnol

- Rydym yn argymell, o fewn tri mis, y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn sicrhau bod swyddogion yn cofnodi eu harsylwadau ar ymddygiad ac agwedd plentyn mewn cofnodion digwyddiadau cam-drin domestig bob tro, fel y gwneir asesiadau gwell o anghenion plentyn.

- Rydym yn argymell, o fewn chwe mis, y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl swyddogion a staff sydd yn delio â phryder ynghylch plant yn ymwybodol o gynlluniau ar gyfer amddiffyn plant a bod yr wybodaeth hon yn hysbysu eu hymatebion ac asesiadau risg.

Crynodeb o ganfyddiadau’r adolygiad ôl-arolygiad

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi gwella ei ddull o gofnodi arsylwadau ar ymddygiad ac agwedd plentyn mewn digwyddiadau cam-drin domestig.

Roedd y ddarpariaeth o hyfforddiant a chanllawiau i staff yr ystafell reoli wedi gwella eu dealltwriaeth o risg. Fodd bynnag, fe wnaeth arolygwyr ganfod nad oedd gwybodaeth berthnasol allweddol ynghylch plant oedd yn destun cynllun amddiffyn plentyn ar gael bob tro i swyddogion rheng flaen.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ôl-arolygiad

Fe wnaeth arolygwyr ganfod bod rhywfaint o wybodaeth ar blant oedd yn destun cynllun amddiffyn plentyn1 ar gael i staff yn ystafell reoli’r llu. Fodd bynnag, nid oedd ganddynt fynediad i fanylion pellach ynghylch natur y risg i’r plant hyn gan fod yr wybodaeth hon yn cael ei chadw ar system ar wahân gyda’r heddlu na allent ei chyrchu. Fe wnaeth swyddogion rheng flaen ddatgan nad oeddynt yn cael eu hysbysu bob tro bod plentyn yn destun cynllun amddiffyn plentyn pan oeddynt yn mynychu digwyddiadau’n cynnwys plant. Pan nad yw’r fath wybodaeth yn hawdd ei gyrchu gan swyddogion rheng flaen gall hyn arwain at benderfyniadau’n cael eu gwneud heb ymwybyddiaeth lawn o’r risgiau i’r plentyn.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi darparu rhaglen o hyfforddiant ar gam-drin domestig i’r holl staff rheng flaen yn 2015. Roedd hwn yn cynnwys canllawiau a chyfarwyddyd i swyddogion ar y camau gweithredu oedd angen iddynt eu cymryd pan oedd plant yn byw mewn cartref lle roedd cam-drin domestig yn digwydd.

[1] Mae cynllun amddiffyn plentyn yn gynllun a roddir yn ei le gan wasanaethau gofal cymdeithasol plant er mwyn sicrhau bod plentyn yn cael ei ddiogelu rhag niwed a’i atal/hatal rhag dioddef niwed pellach.

Fe wnaeth arolygwyr ganfod bod heddlu'n mynychu digwyddiadau cam-drin domestig yn gwirio bod plant yn ddiogel ac yn iach, yn sicrhau eu diogelwch uniongyrchol ac yn cofnodi agwedd y plentyn. Fe wnaeth arolygwyr archwilio chwech achos o gam-drin domestig gan ganfod bod ymddygiad ac agwedd y plentyn wedi'u cofnodi ym mhob achos ond un. Mewn pedwar o'r chwech achos, fe wnaeth arolygwyr farnu bod ansawdd cyffredinol ymateb y llu wrth ddelio â phlant mewn digwyddiad o gam-drin domestig wedi bod o safon dda.

Fe wnaeth swyddogion rheng flaen ddweud wrth arolygwyr bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r hyn oedd yn ofynnol ganddynt, a bod yr offeryn asesu risg Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu (DASH) wedi'u hysbarduno i gofnodi a oedd plant yn bresennol. Roedd gwaith yn cynyddu i ddatblygu'r DASH er mwyn gwella'r wybodaeth ynghylch plant a gesglid gan swyddogion yn mynychu digwyddiadau cam-drin domestig.

Asesu a help

Argymhellion o adroddiad yr arolygiad cychwynnol

- Rydym yn argymell, o fewn tri mis, y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau i wella ymwybyddiaeth staff o'r cysylltiadau rhwng plant sydd ar goll o'u cartref a'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant.
- Rydym yn argymell, o fewn tri mis, y bydd Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau gydag asiantaethau partner i sicrhau y cynhelir archwiliadau meddygol fforensig amserol mewn achosion o gamdriniaeth rywiol yn cynnwys plant.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ôl-arolygiad

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi cymryd rhai camau i wella ymwybyddiaeth staff o'r cysylltiadau rhwng plant sy'n mynd ar goll o'u cartref a'r risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Roedd y llu wedi darparu hyfforddiant i rai staff ond nid oedd hwn wedi'i ymestyn i'r holl swyddogion ar y rheng flaen. Hefyd roedd y llu'n bwriadu gwneud newidiadau i un o'i systemau TG er mwyn gwella mynediad gan staff i wybodaeth ynghylch atgyfeiriadau amddiffyn plentyn a thrafodaethau amlasiantaeth ynghylch plant sy'n mynd ar goll yn aml.

Roedd arolygwyr yn bryderus i ganfod bod Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud ond ychydig o gynnydd o ran gwella amseroldeb archwiliadau meddygol fforensig mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol. Roedd plant yn dal i brofi oedi annerbyniol a theithiau hir er mwyn cael archwiliadau meddygol fforensig.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ôl-arolygiad

Yn ddiweddar roedd staff yn yr ystafell reoli a'r dalfeydd wedi derbyn hyfforddiant ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE) a ddarparwyd gan Barnardo's[2]. Roedd yr hyfforddiant yn cynnwys nodi'r cysylltiadau rhwng plant sy'n mynd ar goll o'u cartref ac arwyddion rhybudd o gamfanteisio'n rhywiol. Fodd bynnag, nid oedd yr hyfforddiant hwn wedi'i ymestyn i swyddogion ar y rheng flaen, er bod y llu'n bwriadu darparu hwn i staff eraill ym mis Medi 2015.

Fe wnaeth arolygwyr archwilio chwech achos yn cynnwys plant a oedd mewn perygl sylweddol o CSE ac yr hysbyswyd eu bod yn mynd ar goll yn aml. Aseswyd bod arferion yr heddlu mewn pedwar achos yn dda ac roedd dau angen gwelliant. Fe wnaethom ganfod tystiolaeth o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill. Fe wnaeth yr achosion a archwiliwyd gennym arddangos cymysgedd o arferion diogelu ac ymchwiliol a ddarparodd ymateb da i'r digwyddiadau ac a gefnogodd plant. Er bod yr achosion a archwiliwyd yn hysbys iawn a bod gwybodaeth berthnasol i hysbysu gwneud penderfyniadau yn yr achos yn weladwy, nid oedd gan y llu ddull o rybuddio ar gyfer CSE o fewn ei systemau. Nid oedd plant yr oedd yn hysbys eu bod mewn perygl sylweddol o gamfanteisio'n rhywiol yn cael eu harddangos fel y cyfryw. O ganlyniad nid oedd yr wybodaeth hon yn hawdd ei chyrchu gan swyddogion rheng flaen. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae penderfyniadau'n cael eu cymryd heb ymwybyddiaeth lawn o'r risgiau i'r plentyn.

Er mwyn gwella mynediad i wybodaeth, roedd Heddlu Dyfed-Powys yn bwriadu gwneud newid i'r system TG mae'n ei defnyddio i reoli atgyfeiriadau amddiffyn plentyn ac i gadw gwybodaeth ar drafodaethau amlasiantaeth ynghylch plant sy'n mynd ar goll yn aml. Byddai hyn yn arwain at sefyllfa lle mae'r holl staff yn gallu cyrchu'r wybodaeth ar y system yn uniongyrchol yn y dyfodol. Mae'r llu'n bwriadu treialu'r newid hwn ym mis Ionawr 2016.

Roedd arolygwyr yn falch o ganfod bod cyfarfodydd amlasiantaeth wedi'u sefydlu o fewn ardal y llu i drafod plant oedd mewn perygl sylweddol o niwed o CSE ac i gytuno ar gynlluniau i sicrhau eu diogelwch. Fodd bynnag, nid oedd llawer o blant a ddylai fod wedi cael eu hatgyfeirio a'u trafod yn profi hynny. Nid oedd y llu'n defnyddio proses asesu systematig a chyson i sicrhau bod yr holl blant mewn perygl yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd amlasiantaeth. Cymerid penderfyniadau ynghylch pa blant fyddai'n cael eu trafod yn seiliedig ar farnau unigolion. Roedd hyn yn gadael llawer o blant mewn perygl o niwed pellach.

Fe wnaeth arolygwyr ganfod nad oedd y llu'n defnyddio cynlluniau sbarduno[3] i rybuddio staff am y camau ymchwiliol a diogelu oedd eu hangen i olrhain ac

[2] Mae Barnardo's yn asiantaeth arbenigol yn y sector gwirfoddol sy'n darparu ystod eang o wasanaethau a gynllunir i wella bywydau plant. Hefyd mae Barnardo's yn darparu hyfforddiant mewn ystod eang o feysydd cysylltiedig â phlant a theuluoedd.

[3] Mae cynlluniau sbarduno'n gynlluniau i leoli plentyn yn gyflym pan yw ef neu hi'n mynd ar goll.

amddiffyn plant mewn perygl o niwed pan hysbyswyd eu bod ar goll. Er enghraifft, fe wnaeth swyddogion rheng flaen ddweud wrth arolygwyr, pan oeddynt yn chwilio am blant ar goll, bod y diffyg gwybodaeth a gedwid ar systemau heddlu arwain at sefyllfa lle collid amser gwerthfawr pan oeddynt yn ceisio dod o hyd i blentyn. Yn aml roedd gwybodaeth ar goll, megis cyfeiriadau hysbys lle roedd plant ar goll yn debygol o fynd.

Roedd arolygwyr yn falch o ganfod bod cynlluniau yn eu lle i gynnal cyfweliadau dychwelyd annibynnol[4] ar gyfer plant sy'n mynd ar goll o'u cartref neu o ofal. Gall cyfweliadau â phlant ar y cam cynnar hwn ddarparu gwybodaeth werthfawr ynghylch y rhesymau pam eu bod yn rhedeg i ffwrdd, yn arbennig lle mae digwyddiadau tebyg yn amlhau a lle mae'r plentyn yn anfodlon siarad â'r heddlu neu asiantaethau statudol eraill. Dywedwyd wrth arolygwyr bod y comisiynydd heddlu a throseddu (PCC) wedi ariannu a chomisiynu gwasanaeth i ddarparu cyfweliadau dychwelyd annibynnol ar gyfer plant sy'n mynd ar goll, er nad oedd trefniadau yn eu lle ar adeg ein hadolygiad.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio offeryn asesu risg cydnabyddedig i ystyried y risg i blant hyglwyf oherwydd camfanteisio'n rhywiol. Fodd bynnag, fe wnaeth arolygwyr ganfod nad oedd plant roedd yn amlwg eu bod mewn perygl sylweddol o CSE wedi derbyn asesiad priodol o risg ac nad oedd camau i'w lleoli a'u diogelu wedi'u cyflymu. Gwelsom dystiolaeth o hyn mewn dau o'r chwech achos a archwiliwyd gennym oedd yn cynnwys plant ar goll, ac fe wnaeth arolygwyr ganfod llawer o enghreifftiau eraill lle gwnaeth y llu raddoli risg yn anghywir yn achos plant ar goll oedd mewn perygl uchel o CSE. Er enghraifft, fe wnaeth arolygwyr weld manylion ynghylch chwe phlentyn arall yr hysbysid yn aml eu bod yn mynd ar goll. Roedd tri o'r plant wedi'u hasesu fel rhai oedd mewn perygl sylweddol o CSE. O'r rhain, barnwyd bod un mewn perygl canolig ac nid oedd y ddau arall wedi cael lefelau risg wedi'u hasesu na'u cofnodi gan y llu.

Roedd Heddlu Dyfed Powys wedi cyflogi aelod o staff i weithio fel rheolwr ar goll-o'r-cartref a chydgysylltydd iechyd meddwl. Agwedd ar-goll-o'r-cartref y rôl oedd gweithio gyda phobl ifanc, eu teuluoedd a'r heddlu i ganfod beth oedd wedi achosi iddynt redeg i ffwrdd ac i atal digwyddiadau eraill. Fodd bynnag, oherwydd maint y gwaith oedd yn codi o agwedd iechyd meddwl y rôl, roedd hon yn cymryd blaenoriaeth dros waith â phlant ar goll.

Fe wnaeth arolygwyr ganfod bod Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd rhai camau i wella darpariaeth a hygyrchedd gwasanaethau archwilio fforensig meddygol ar gyfer plant. Dywedwyd wrth arolygwyr bod y PCC wedi darparu cyllid ar gyfer dwy ganolfan atgyfeirio am ymosodiadau rhywiol (SARCs) ar gyfer oedolion. Dywedwyd wrthym bod gwaith ar y gweill trwy'r Bwrdd Prosiect SARC i ddatblygu ymagwedd

[4] Mae'r Protocol Cymru Gyfan ar gyfer Plant ar Goll 2011 yn cyflwyno cyfrifoldebau sefydliadau ynghylch diogelu plant sy'n mynd ar goll. Mae'r Protocol ar gael gan: www.childreninwales.org.uk/our-work/safeguarding/wales-child-protection-procedures-review-group/

gydweithredol at wasanaethau ar gyfer oedolion a phlant fel ei gilydd ar draws y tri heddlu yn Ne Cymru (Heddlu Dyfed-Powys, Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent).

Serch hynny, fe wnaeth arolygwyr ganfod bod plant oedd wedi dioddef camdriniaeth rywiol yn dal yn gorfod teithio dros nos am nifer o oriau i gael archwiliad meddygol.

Ymchwilio

Argymhellion o adroddiad yr arolygiad cychwynnol

- Rydym yn argymell bod Heddlu Dyfed-Powys ar unwaith yn:
    - cymryd camau i wella safonau ymchwilio i gynnwys gostyngiad o ran oedi, archwilio ymchwiliadau'n rheolaidd, a goruchwyliaeth well gan uwch-reolwyr er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu diwallu; a
    - nodi ac adolygu pob achos o ymchwilio cam-drin plant sydd wedi cymryd mwy na thri mis i'w hymchwilio oddi ar yr adroddiad cyntaf, a sicrhau bod pob plentyn yn cael ei gefnogi a'i ddiogelu, a bod mesurau priodol yn eu lle i reoli'r risg a gyflwynir gan y rhai dan amheuaeth.
- Rydym yn argymell bod Heddlu Dyfed-Powys yn cymryd camau ar unwaith i leihau oedi yn yr uned droseddau uwch-dechnoleg.
- Rydym yn argymell bod Heddlu Dyfed-Powys, o fewn tri mis, yn trafod â Gwasanaeth Erlyn y Goron y ffordd orau i leihau oedi yn y broses erlyn fel bod amseroldeb cyflwyno ffeiliau erlyn gan yr heddlu ac amseroldeb penderfyniadau erlyn yn cael eu hadolygu a'u gwella'n rheolaidd.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ôl-arolygiad

Roedd arolygwyr yn falch o ganfod bod y llu wedi adolygu'r adnoddau a ddynodir i amddiffyn y cyhoedd a'i fod wedi adleoli staff ychwanegol i dimau amddiffyn plant. Roedd yr adolygiad wedi argymell cynnydd pellach mewn adnoddau er mwyn diwallu'r twf mewn galw sy'n gydylltiedig ag amddiffyn y cyhoedd.

Hefyd roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi adolygu pob achos amddiffyn plant oedd yn fwy na thri mis oed er mwyn sicrhau bod risg yn cael ei rheoli a bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Roedd hyn wedi gwella safon ymchwiliadau. Rydym yn ystyried y camau a gymerwyd gan y llu i gryfhau'r ffordd mae'n rheoli'r risgiau a gyflwynir gan y rhai dan amheuaeth yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Roedd arolygwyr yn bryderus ynghylch yr oedi parhaol o ran archwilio cyfrifiaduron a ffonau'n fforensig ac yn ddigidol.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi cymryd camau i wella amseroldeb cyflwyno ffeiliau erlyn trwy weithio gyda Gwasanaeth Erlyn y Goron. Fodd bynnag, fe wnaeth arolygwyr ganfod ond ychydig o dystiolaeth bod oedi wedi'i leihau.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ôl-arolygiad

Fel a nodwyd gennym yn gynharach, roedd arolygwyr yn falch o ganfod bod y llu wedi adolygu'r adnoddau a ddynodir ar gyfer amddiffyn y cyhoedd ac wedi adleoli wyth ditectif gwnstabl ychwanegol i ymchwilio i achosion yn ymwneud â phlant. Fe wnaeth y llu nodi bod angen rhagor o staff a roedd wedi dechrau dadansoddi'r galw.

Nid oedd staff newydd eu recriwtio wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar amddiffyn plant, er y disgwylid i hyn ddigwydd o fewn y chwe mis nesaf. Serch hynny, roeddem yn bryderus i ganfod, ar adeg ein hadolygiad, nad oedd mwy na hanner y staff yn gweithio mewn timau amddiffyn plant oedd yn ymchwilio i achosion amddiffyn plant yn arbenigwyr ym maes amddiffyn plant.

Roedd y llu wedi recriwtio staff i adolygu achosion yn gysylltiedig â phlant. Fe wnaeth arolygwyr ganfod bod gwybodaeth a gasglwyd gan yr adolygiadau hyn yn cael ei defnyddio i wella dysg a darparu gwell ddealltwriaeth o faterion ynghylch amddiffyn plant ar draws y llu.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi adolygu'r holl achosion amddiffyn plant mwy na thri mis oed er mwyn sicrhau bod risg yn cael ei rheoli a bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Roedd hyn wedi arwain at welliannau mewn ymchwiliadau. Mewn achosion a archwiliwyd gan arolygwyr roedd rhai enghreifftiau da iawn o waith amddiffyn plant. Roedd staff yn sicrhau bod diogelu'n aros yn ganolog i'w hymdrechion tra'u bod yn dilyn cyfleoedd ymchwiliadol. Roedd gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gywir, roedd gwybodaeth berthnasol bwysig, megis cofnodion cyfarfodydd, yn weladwy a roedd camau gweithredu'n cael eu cofnodi a'u hymateb iddynt mewn modd amserol.

Fodd bynnag, roedd arolygwyr yn bryderus i ganfod bod achosion yn ymwneud â meithrin perthynas amhriodol â phlant ar-lein yn cael eu dynodi i staff heb eu hyfforddi, yn hytrach na staff arbenigol. Nid oedd gan staff oedd yn delio â'r achosion hyn y sgiliau na'r profiad i ymchwilio i faterion amddiffyn plant ac roeddynt yn methu â chofnodi manylion ynghylch dioddefwyr oedd yn blant.

Fe wnaeth arolygwyr archwilio tri achos yn gysylltiedig â delweddau anweddus o blant. Ym mhob un o'r tri achos ni chofnodwyd manylion plant mewn perygl ar systemau'r heddlu. Mae methu â chofnodi'r wybodaeth hon yn creu bylchau mewn gwybodaeth ac yn rhoi darlun anghyflawn os bydd digwyddiadau pellach. Roedd swyddogion wedi methu ag atgyfeirio gwybodaeth at wasanaethau gofal cymdeithasol plant nac ymgymryd ag ymchwil i ddarganfod a oedd y plant yn hysbys i asiantaethau eraill. Gallai'r camau hyn fod wedi darparu cymorth oedd ei angen i blant ac wedi rhybuddio asiantaethau am bryderon ehangach. Nid oedd ystyriaeth wedi'i rhoi i rybuddio ysgolion am faterion perthnasol ynghylch diogelwch ar-lein yn ymwneud â'u myfyrwyr, gan olygu bod cyfleodd i addysgu a chefnogi dioddefwyr ac atal troseddu pellach ar-lein wedi'u colli.

Ar y cyfan, fe wnaeth arolygwyr archwilio 19 o achosion yn ymwneud ag amddiffyn plant. Aseswyd bod arferion yn dda mewn 10 o'r achosion hyn; roedd 6 achos angen gwelliant a barnwyd bod 3 yn annigonol.

Fe wnaethom ganfod bod pedwar achos, lle nodwyd camfanteisio'n rhywiol ar blant o fewn yr ymchwiliad, o safon dda, roedd dau achos o'r fath angen gwelliant ac roedd dau'n annigonol. Yn y pedwar achos lle barnwyd eu bod yn dda, fe wnaeth arolygwyr ganfod tystiolaeth o weithio'n effeithiol mewn partneriaeth â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant er mwyn diogelu plant. Fodd bynnag, mewn achosion eraill fe wnaethom ganfod bod swyddogion wedi anwybyddu arwyddion clir o CSE ac wedi colli cyfleoedd i amddiffyn plant yn gynharach.

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi sefydlu uned gyfathrebu digidol a seiberdroseddu ychydig cyn ein harchwiliad ym mis Hydref 2014, oedd yn ymgorffori'r uned droseddau uwch-dechnoleg. Roedd y llu wedi disgwyl y byddai hon yn darparu capasiti ychwanegol mawr ei angen iddo a thrwy hynny wella amseroldeb archwilio'r cyfryngau. Fodd bynnag, roedd oediadau o hyd at bum mis yn dal i ddigwydd – yr un sefyllfa i raddau helaeth â'r un oedd yn bodoli ar adeg ein harolygiad cychwynnol. Roedd yn glir i arolygwyr bod rhaid i'r llu wneud mwy i leihau'r amser mae'n ei gymryd i archwilio cyfryngau digidol a gysylltir ag achosion amddiffyn plant.

Fe wnaeth Heddlu Dyfed-Powys gynnal cyfarfodydd rheolaidd â'r CPS er mwyn gwella amseroldeb y broses o gyflwyno ffeiliau erlyn ond canfu arolygwyr ond ychydig o dystiolaeth o ostyngiad mewn oediadau.

Gwneud penderfyniadau

Argymhellion o adroddiad yr arolygiad cychwynnol

Rydym yn argymell bod Heddlu Dyfed-Powys, o fewn chwe mis, yn cymryd camau i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn hygyrch, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i'r holl swyddogion a staff yn delio ag achosion lle mae pryderon ynghylch lles plant.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ôl-arolygiad

Fel a nodwyd yn gynharach, roedd Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud gwaith datblygu er mwyn gwella hygyrchedd gwybodaeth ynghylch atgyfeiriadau amddiffyn plant a thrafodaethau amlasiantaeth ynghylch plant sy'n mynd ar goll yn aml.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ôl-arolygiad

Fe wnaeth swyddogion rheng flaen fynegi rhwystredigaeth oherwydd nad oeddynt yn gallu cyrchu gwybodaeth bwysig ynghylch plant a ddelir gan dimau arbenigol. Cedwid gwybodaeth allweddol ynghylch amddiffyn plant ar systemau TG ar wahân, yr hyn nad oedd swyddogion rheng flaen yn gallu eu cyrchu. O ganlyniad, ni rennid gwybodaeth bwysig i hysbysu penderfyniadau swyddogion ynghylch y camau gweithredu gorau i'w cymryd i ddiogelu plant. Er enghraifft, fe wnaeth un swyddog

rheng flaen ddweud wrth arolygwyr, wedi mynychu digwyddiad roedd wedi gwneud atgyfeiriad i wasanaethau gofal cymdeithasol plant oherwydd pryderon ynghylch y plant dan sylw. Fe fynegodd rwystredigaeth, pe byddai'r heddlu'n cael eu galw i'r un cyfeiriad yn y dyfodol, na fyddai swyddogion yn ymwybodol o unrhyw gamau gweithredu oedd wedi'u cymryd yn y cyfamser. Fel a nodwyd yn gynharach, roedd Heddlu Dyfed-Powys yn gwneud gwaith datblygu er mwyn gwella hygyrchedd gwybodaeth ynghylch atgyfeiriadau amddiffyn plant a thrafodaethau amlasiantaeth ynghylch plant sy'n mynd ar goll yn aml.

Oedolyn priodol

Argymhellion o adroddiad yr arolygiad cychwynnol

- Rydym yn argymell, o fewn chwe mis, dylai Heddlu Dyfed-Powys sicrhau:
    - mae'r holl staff yn cofnodi barnau a phryderon plant ac unrhyw ganlyniadau sydd ar gael ar ddiwedd cysylltiad yr heddlu ag achos; a
    - trefnir bod gwybodaeth ynghylch anghenion a barnau plant ar gael yn rheolaidd i'w hystyried gan y comisiynydd heddlu a throseddu (PCC) ac i reolwyr gwasanaeth er mwyn hysbysu arferion y dyfodol.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ôl-arolygiad

Roedd arolygwyr yn bryderus i ganfod nad oedd y llu wedi datblygu arfer i gipio barnau a phryderon plant yn effeithiol. Ymhellach, nid oedd y llu wedi casglu gwybodaeth am anghenion a barnau plant i'w hystyried gan y PCC.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ôl-arolygiad

Fe wnaeth arolygwyr archwilio nifer o achosion lle roedd yn amlwg bod y penderfyniadau a wnaed wedi cymryd cyfrif o farnau ac anghenion plant. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion ni chofnodwyd dymuniadau na barnau'r plentyn, yr effaith ddilynol ar y plentyn, a chanlyniadau ymyrraeth gan yr heddlu dros y plentyn.

Er enghraifft, daethpwyd o hyd i ferch 15 oed yr hysbyswyd ei bod ar goll o'i chartref ac a oedd wedi cymryd gorddos, gan staff ambiwlans ac fe'i hebryngwyd i'r ysbyty. Er i'r digwyddiad gael ei gofnodi gan yr heddlu, a nodwyd ar ffeil yr achos bod y ferch wedi honni bod trosedd posibl wedi digwydd, ni fu unrhyw ymchwiliad a chauwyd yr achos heb i swyddogion siarad â hi.

Dywedwyd wrth arolygwyr bod goruchwylwyr yn ceisio annog staff i gasglu gwybodaeth ar anghenion a barnau plant ond nad oedd hyn yn arfer rheolaidd eto. Ni threfnwyd bod gwybodaeth ar gael i'r PCC ychwaith.

Rheoli’r rhai hynny sy’n cyflwyno perygl i blant

Argymhellion o adroddiad yr arolygiad cychwynnol

Rydym yn argymell, o fewn tri mis, bod Heddlu Dyfed-Powys yn gweithredu i wella nodi, rhwystro ac erlyn y rhai hynny sy’n ymwneud ag CSE

Crynodeb o ganfyddiadau’r adolygiad ôl-arolygiad

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud rhywfaint o gynnydd i wella nodi, targedu a rhwystro cyflawnwyr CSE. Serch hynny, fe wnaeth arolygwyr ganfod nad oedd gan y llu gynlluniau mewn lle ar gyfer rheoli’r risg sydd yn gysylltiedig â chyflawnwyr unigol CSE, ac roedd camau gweithredu a gymerwyd yn erbyn y rhai dan amheuaeth yn cael eu cofnodi a’u ‘fflagio’ yn anghyson ar systemau’r heddlu.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ôl-arolygiad

Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi dechrau datblygu ei arferion ar gyfer nodi a gweithredu yn erbyn cyflawnwyr unigol CSE. Er enghraifft, roedd merch 15 oed oedd wedi mynd ar goll wedi cael ei rhoi mewn cartref gofal yn Nyfed-Powys gan awdurdod lleol arall wedi’i chanfod gan yr heddlu yng nghartref dyn 30 oed. Gweithredodd yr heddlu’n gyflym i amddiffyn y ferch ac erlyn y dyn.

Fodd bynnag, fe wnaeth arolygwyr ganfod achosion lle roedd y llu wedi methu â dilyn llinellau ymholi i ymchwilio i gyflawnwyr posibl. Er enghraifft, daeth merch 15 oed i gysylltiad â’r heddlu ac fe nododd swyddogion y gallai fod mewn perygl uchel o gamfanteisio’n rhywiol. Fe wnaeth swyddogion gwblhau asesiad risg yn amlygu nifer o bryderon, gan gynnwys bod gan y ferch gariad hŷn ac roedd gwybodaeth yn awgrymu ei bod wedi’i gweld yn mynd i mewn i geir ac allan ohonynt gyda dynion eraill. Ni chofnodwyd tasgau ymchwiliol ar ffeil yr achos ac nid oedd yn hysbys a oedd camau gweithredu wedi’u cymryd i’w hamddiffyn.

Roedd y llu wedi datblygu proffil problem CSE[5] a oedd wedi’i seilio ar wybodaeth a data’r heddlu’n unig. Oherwydd nad oedd y proffil yn cynnwys unrhyw wybodaeth gan asiantaethau partner, megis awdurdodau lleol a’r sector gwirfoddol, nid oedd yn cynrychioli darlun cyflawn o natur a nifer achosion CSE yn Nyfed-Powys.

Roedd arolygwyr yn falch o ganfod bod pobl risg uchel dan amheuaeth a oedd wedi’u cysylltu ag achosion amddiffyn plant yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd rheoli dyddiol. Ar ben hynny, roedd y llu’n dewis nifer o bobl dan amheuaeth yn gysylltiedig ag achosion CSE bob mis ar gyfer gweithgarwch ychwanegol er mwyn rhwystro troseddu. Fodd bynnag, nid oedd gan y llu feini prawf ar gyfer blaenoriaethu y rhai hynny a ddewiswyd. O ganlyniad, gallai golli pobl eraill dan amheuaeth a allai gyflwyno mwy o risg i blant.

[5] Fel arfer comisiynir proffil problem gan grŵp cydgysylltu a gosod tasgau’r llu i ddarparu data a dadansoddiad er mwyn gwella dealltwriaeth o gyfresi sefydlog a datblygol o droseddau, lleoliadau blaenoriaethol neu faterion risg uchel eraill a nodwyd.

Dywedwyd wrth arolygwyr bod hysbysiadau rhybuddio herwgydio plant (CAWNs)[6] yn cael eu defnyddio gan Heddlu Dyfed-Powys i rwystro cyflawnwyr dan amheuaeth o CSE rhag ymgysylltu â phlant. Fodd bynnag, nid oedd y llu'n gallu gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau hyn oherwydd nad oedd ganddo ddull cyson o gofnodi, neu fflagio gwybodaeth. Fe wnaeth swyddogion rheng flaen adrodd am ddiffyg ymwybyddiaeth o bwrpas neu ddefnydd CAWNs.

Cadwad yr heddlu

Argymhellion o adroddiad yr arolygiad cychwynnol

- Rydym yn argymell, o fewn tri mis, bod Heddlu Dyfed-Powys yn ymgymryd ag adolygiad (ar y cyd â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ac asiantaethau perthnasol eraill) o sut mae'n rheoli cadwad plant. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys, fel isafswm, y dull gorau o:

    sicrhau, ag asiantaethau partner, bod plant a gedwir o dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cadw yn nalfa'r heddlu o dan amgylchiadau eithriadol yn unig;

    darparu hyfforddiant ar gyfer staff y ddalfa er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o hyglwyfder plant, amddiffyn plant a CSE;

    asesu'r angen am lety amgen ar gam cynnar, a gweithio â gwasanaethau gofal cymdeithasol plant i sicrhau trosglwyddiadau lle mae hyn yn ofynnol; a

    sicrhau bod staff y ddalfa'n cofnodi'r holl gamau gweithredu a phenderfyniadau â rhesymeg glir os cedwir plant yn nalfa'r heddlu a chydymffurfio â dyletswyddau statudol, gan gwblhau tystysgrifau cadwad lle bo angen.

Crynodeb o ganfyddiadau'r adolygiad ôl-arolygiad

Fe wnaeth arolygwyr ganfod bod y nifer o blant a gymerwyd i ddalfa'r heddlu o dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi lleihau yn sylweddol, â dwy enghraifft o blant yn cael eu cadw o dan yr amgylchiadau hyn yn y 12 mis a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2015.

[6] Hysbysiad anstatudol a gyhoeddir pan yw'r heddlu'n dod yn ymwybodol bod plentyn yn treulio amser gydag oedolyn maent yn credu y gallai fod yn niweidiol iddo/iddi. Defnyddir hysbysiad i rwystro cysylltiad yr oedolyn â'r plentyn neu'r person ifanc, yn ogystal â rhybuddio'r oedolyn y gallai'r cysylltiad arwain at arestio ac erlyn.

Hefyd roedd arolygwyr yn falch o ganfod bod staff fod wedi derbyn hyfforddiant ar CSE gan arbenigwyr annibynnol, yn ogystal ag hyfforddiant ar ddelio â phobl hyglwyf a gedwir yn nalfa'r heddlu.

Roedd arolygwyr yn bryderus i ganfod diffyg dealltwriaeth gan ringylliaid y ddalfa o'r seiliau ar gyfer gofyn am lety diogel, a fyddai'n arwain at blant hyglwyf yn cael eu cadw yn y ddalfa'n ddiangen. Mae arferion cofnodi'n dal i fod yn wael.

Canfyddiadau manwl yr adolygiad ôl-arolygiad

Mae adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn caniatáu i swyddog heddlu symud person sydd ag anhwylder meddwl posibl o fan cyhoeddus i fan diogel. Er gall man diogel gynnwys dalfa'r heddlu, dylid defnyddio'r rhain o dan amgylchiadau eithriadol yn unig ac mae'n well i'r person gael ei symud yn uniongyrchol i gyfleusterau gofal iechyd megis ysbyty. Mae pedwar man diogel dynodedig o'r fath yn ardal heddlu Dyfed-Powys. Roedd dau gadwad, y ddau'n cynnwys yr un plentyn, o dan adran 136 y Ddeddf Iechyd Meddwl rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, sydd yn cynrychioli lleihad arwyddocaol o'i gymharu â'r sefyllfa adeg ein harolygiad gwreiddiol.

Roedd arolygwyr yn falch o ganfod bod Heddlu-Dyfed Powys wedi darparu hyfforddiant CSE arbenigol i staff y ddalfa. Byddai'r llu'n elwa o fonitro effeithiolrwydd yr hyfforddiant hwn.

Roedd y Prif Gwnstabl Cynorthwyol sy'n gyfrifol am ddalfa wedi ysgrifennu at benaethiaid gwasanaethau gofal cymdeithasol plant ym mhob ardal awdurdod lleol er mwyn sefydlu pa ddarpariaeth oedd mewn lle ynghylch llety amgen ar gyfer plant a fyddai wedi'u cadw yn nalfa'r heddlu fel arall.[7] Y tu hwnt i hyn, nid oedd gwaith wedi cynyddu i fynd i'r afael â'n hargymhelliad cynharach.

Fe wnaeth arolygwyr archwilio 8 achos lle cadwyd plant rhwng 13 ac 17 oed dros nos. Roedd pedwar achos angen gwelliant ac roedd pedwar yn annigonol.

Roedd pedwar o'r 8 achos yn perthyn i blant dan 17 oed a oedd wedi'u cadw yn nalfa'r heddlu. Roedd dau angen gwelliant ac roedd dau'n annigonol. Fe wnaeth tri chofnod cadwad ddangos bod cais wedi'i wneud i'r awdurdod lleol am lety diogel wedi penderfyniad i wrthod mechnïaeth. Mewn achosion prin, efallai bydd angen llety diogel os yw'r plentyn yn cyflwyno risg o niwed difrifol i bobl eraill. Fe wnaeth arolygwyr ganfod bod staff fod wedi gwneud cais am lety diogel pan nad oedd y trothwy am hyn wedi'i ddiwallu a dylent fod wedi gwneud cais am leoedd gofal preswyl (agored).

[7] O dan adran 38(6) Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 rhaid i swyddog y ddalfa sicrhau i blentyn symud i lety'r awdurdod lleol oni bal ei fod yn tystio nad yw'n ymarferol gwneud hynny neu, ar gyfer y rhai hynny 12 oed neu'n hŷn, nad oes llety diogel ar gael ac na fyddai llety awdurdod lleol yn ddigonol i amddiffyn y cyhoedd rhag niwed difrifol ganddo. Mae awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i ddarparu'r llety hwn.

Er enghraifft, mewn un achos fe wnaeth y llu gadw plentyn 15 oed yn y ddalfa am 22 awr yn dilyn honiad o ymosodiad ar staff yn y cartref gofal ble roedd wedi'i leoli. Roedd staff y ddalfa wedi gwneud cais am lety diogel pan nad oedd y seiliau am y math hwn o lety wedi'u diwallu. Dylai staff fod wedi ceisio llety amgen nad oedd yn ddiogel ar gyfer y plentyn.

Mewn enghraifft arall, roedd dau blentyn wedi'u lleoli yn yr ardal gan awdurdod lleol arall ac roedd staff y ddalfa wedi profi anhawster i nodi pa awdurdod lleol oedd â chyfrifoldeb i ddarparu llety amgen.

Fe wnaeth arolygwyr gasglu nad oedd rhingylliaid a staff yn llawn ddeall y math o lety oedd ei angen ac o dan pa amgylchiadau.

Fe wnaeth arolygwyr ganfod bod arferion cofnodi o fewn y ddalfa o safon wael ac nad oedd gofynion allweddol yn Neddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol mewn nifer o ardaloedd yn cael eu diwallu.

Er enghraifft, fe wnaeth arolygwyr archwilio achos yn ymwneud â merch 14 oed â hanes o hunan-niweidio, oedd yng ngofal awdurdod lleol. Fe wnaeth yr heddlu ei harestio yn dilyn digwyddiad yn y cartref gofal lle roedd yn byw. Wrth gyrraedd y ddalfa ni ddarllenwyd ei hawliau iddi ac fe'i rhoddwyd mewn cell; nid oedd cofnod y ddalfa'n cynnwys y cyfiawnhad am y camau hyn. Yn yr un modd, roedd staff y ddalfa wedi chwilio'r ferch heb ddillad arni ar frys, heb gofnodi'r cyfiawnhad am y weithred na'r rhesymau am y brys. Cynhaliwyd y chwiliad heb fod oedolyn priodol yn bresennol. Ymhellach, fe wnaethant rwystro'r ferch hyglwyf iawn hon mewn cell yn defnyddio gefynnau, a oedd wedi'u clymu y tu ôl iddi, am fwy na dwy awr. Ni chofnodwyd unrhyw gyfiawnhad am y rhwystro hwn.

Fe wnaethom ganfod nad oedd Heddlu Dyfed-Powys bob tro'n ystyried ar gam cynnar pwy oedd yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth a chyfarwyddyd i blant. Yn aml roedd y llu'n defnyddio'r cynllun oedolyn priodol i ddarparu cymorth ar gyfer ac eirioli ar ran plant yn hytrach na rhieni neu'r rhai hynny sy'n adnabyddus i'r plentyn. Nid oedd hynny er lles gorau plant hyglwyf.

3. Argymhellion

Rydym yn argymell bod Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithio i weithredu'r argymhellion a wnaed gan HMIC yn dilyn yr arolygiad amddiffyn plant ym mis Hydref 2014 ac yn sicrhau y gweithredir yr argymhellion yn llawn. Dylai'r llu adolygu yn systematig effaith ei weithgarwch i wella ynghylch safon ei wasanaethau rheng flaen i amddiffyn plant mewn perygl o niwed a darparu adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i'w gomisiynydd heddlu a throseddu.